Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Y Parchedig Rhian Linecar (*Offeiriad*)
Ffôn: 01446 760 007
E-bost: rlinecar@gmail.com
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 029 2084 3336
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd
EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

11 Chwefror 2024
Cwincwagesima – Sul y Gweddnewidiad

10.30am Y Cymun Bendigaid ar Gân
Darllenwyr: Rhys Davies / Gerallt Hughes
Emynau: 373 (Berwyn); 226 (Skerton 181); 62 (Bod Alwyn); 61 (Joanna)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi
Salm: 2
Darlleniadau: I Brenhinoedd 19:1-16
II Pedr 1:16-21
Darllenwyr: Margaret Hughes/ Rhys Jones
Emynau: 56 (Dominus Regit Me); 503 (Bryntirion); 233 (Tallis' Canon)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Mel Amos, Megan Davies, Falmai Griffiths, John Hicks, Eleri Hughes, Stuart Owen Jones, Ann Wyn Jones, Ann Mears, Gwen Thomas, Ann Watkins, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

YN YR EGLWYS:

Dydd Mawrth 13 Chwefror 2024
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher y Lludw 14 Chwefror
10.30am Y Cymun Bendigaid gydag arnodiad Lludw

Dydd Sul 18 Chwefror 2024
Garawys I
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
6.00pm Yr Hwyrol Weddi

IS-BWYLLGOR CYLLID AC EIDDO
Cynhelir cyfarfod o'r is-bwyllgor uchod nos Lun 12 Chwefror yn neuadd yr eglwys am 6.00pm

DYDD MERCHER Y LLUDW
Mae'r Pasg yn gynnar eleni! Felly, mae dydd cyntaf y Garawys, sef dydd Mercher y Lludw yn syrthio ar 14 Chwefror. Bydd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid ag arnodiad Lludw am 10.30am.

CWMPLIN YN YSTOD Y GARAWYS
Yn ystod y Garawys byddwn yn cynnal gwasanaeth o gwmplin a myfyrdod byr dros Zoom bob nos Fercher am 8.00pm gan ddechrau nos Fercher y Lludw. Os hoffech y manylion Zoom anfonwch e-bost at y Ficer.

COFFI A CHLONC
Byddwn yn cynnal ein bore Coffi a Chlonc bore Sadwrn 17 Chwefror rhwng 10.30am a 12.00pm. Croeso cynnes i bawb.

GŴYL DDEWI
Byddwn yn cynnal ein dathliadau Gŵyl Ddewi dydd Sul 3 Mawrth gyda gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid am 10.30am. Y pregethwr fydd y Parchedig Athro Thomas Watkin. Bydd cinio o gawl a phwdin crymbl yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth. Os ydych yn bwriadu dod i'r cinio a wnewch chi roi eich enw ar y rhestr sydd yng nghefn yr eglwys os gwelwch yn dda. Mae cael syniad o'r niferoedd yn helpu gyda'r gwaith paratoi.

CLOCH DEWI
Os oes gennych gyfraniad yr hoffech chi ei gynnwys yn y rhifyn nesaf o Gloch Dewi boed hynny'n erthygl, pwt bach, cerdd, rysáit ayyb, anfonwch eich cyfraniad at Wyn Mears wyn@wynmears.com erbyn **dydd Gwener 23 Chwefror** os gwelwch yn dda.

CONFFYRMASIWN (BEDYDD ESGOB)
Bwriedir trefnu gwasanaeth conffyrmasiwn yn hwyrach yn y flwyddyn, efallai yn nes ymlaen yn yr haf neu ddechrau'r Hydref. Mae hyn yn dibynnu ar ddyddiadur yr Esgob. Cynhelir chwe dosbarth paratoi cyn y gwasanaeth conffyrmasiwn. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn Bedydd Esgob neu os hoffech ragor o wybodaeth, mynnwch air â'r ficer os gwelwch yn dda.

GOFAL EIN GWINLLAN
Cynhelir yr ail sesiwn o dair yn y gyfres Gofal ein Gwinllan ddydd Sadwrn 24 Chwefror rhwng 10.00am a 11.30am. Bydd Robert Rhys yn trafod Nicander – 'Pêr Ganiedydd yr Eglwys yng Nghymru' – a Mwy a bydd Dafydd Glyn Jones yn trafod Owen Wynne Jones (Glasynys) fel bardd, cofnodwr llên gwerinol ac fel un o arloeswyr y stori fer Gymraeg. Mae croeso i bawb ond mae angen cofrestru o flaen llaw trwy ddilyn y ddolen hon: https://bit.ly/48pj6Xs

GWEDDÏAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Talaith Eglwys Esgobol De Swdan
- Ardal Gweinidogaeth Calon y Ddinas, y Parchedig Ganon Sarah Jones (Arweinydd), Paul Booth (Cadeirydd Lleyg)

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 12 Chwefror:
Iago 1:1-11; Salm 119:65-72; Marc 8:11-13
Gweddïwn: Esgobaeth Gogledd Ddwyrain y Caribî ac Arube (Eglwys Anglicanaidd Ynysoedd y Caribî) Deoniaeth Eglwysilan, y Deon Bro, y Parchedig Simon Freeman

Dydd Mawrth 13 Chwefror:
Iago 1:12-18; Salm 94:12-19; Marc 8:14-21
Gweddïwn dros: Esgobaeth Caerliwelydd Ardal Gweinidogaeth Pontypridd, y Parchedig Charlotte Rushton (Arweinydd), Esther Sowerby (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Mercher 14 Chwefror: Dydd Mercher y Lludw
Eseia 58:1-12; Salm 51:1-17; Mathew 6:1-6, 16-21
Gweddïwn dros: Esgobaeth Dwyrain Carolina – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Canolfan Genhadaeth Byddin yr Eglwys Esgobaeth Llandaf a leolir yn Eglwys St Ioan Fedyddiwr, Caerdydd Hannah Seal (Prif Efengylydd), Meg Borges

Dydd Iau 15 Chwefror:
Deuteronomium 30:15-20; Salm 1; Luc 9:18-25
Gweddïwn dros: Esgobaeth Gogledd Carolina, Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Clerigion Ardal Gweinidogaeth Pontypridd, y Parchedigion Charlotte Rushton (Arweinydd), Rachel Campbell (Ficer), Jeremy Heuslein (Curad); Philip Hopkins (Darllenydd Lleyg)

Dydd Gwener 16 Chwefror:
Eseia 58:1-9a; Salm 51:1-4, 16-17; Mathew 9:14-17
Gweddïwn dros: Esgobaeth De Carolina – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Ardal Gweinidogaeth y Llan, y Parchedig Vincent Gardner (Arweinydd), Gareth Jones (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Sadwrn 17 Chwefror:
Eseia 58:9b-14; Salm 86:1-6; Luc 5:27-32
Gweddïwn dros: Esgobaeth De Carolina Uwch – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Clerigion Gweinidogaeth y Llan, y Parchedigion Vincent Gardner (Arweinydd), David Jones (Ficer), Simon Freeman (Ficer), Rick Gratton (Curad); David Allen, Sonia Heke, Kenneth Jones, Steve Vargus (Darllenwyr Lleyg)